# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 17-08 (p19) : 12 Mehefin 2008**

### Diben

Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu wedi gofyn am fanylion gan Gynghorau Sgiliau Sector am eu gweithgaredd a'u hymgysylltiad gyda Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, natur ymgysylltiad strategol Sefydliadau Addysg Uwch gyda busnesau yng Nghymru a'r effaith ddilynol ar economïau lleol a rhanbarthol. Mae'r papur hwn gan e-skills DU, y Cyngor Sgiliau Sector a arweinir gan gyflogwyr ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu, sy'n ymgyrchu i wneud y Deyrnas Unedig gyda'r gorau yn y byd mewn sgiliau technoleg. Cylch gorchwyl e-sgiliau DU yw uno cyflogwyr, addysgwyr a'r llywodraeth i:

Hysbysu - sicrhau fod gan gyflogwyr, addysg a llywodraeth fynediad i wybodaeth marchnad gyda'r gorau yn y byd i gefnogi gwneud penderfyniadau a buddsoddiadau;
Ysbrydoli - gwella delwedd ac apêl gyrfaoedd mewn technoleg;
Addysgu - helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer gyrfaoedd a bywydau llwyddiannus mewn byd sy'n gynyddol yn cael ei alluogi gan dechnoleg; a
Phroffesiynoli - cefnogi cyflogwyr i ddatblygu gweithlu gyda'r gorau yn y byd.

Mae'r papur yn nodi, fel cefndir, y proffil presennol a hefyd ragolygon y dyfodol ar gyfer gweithgaredd economaidd a chyflogaeth yn y diwydiant a gweithlu Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu. Mae hefyd yn nodi  e-skills DU hyd yma gyda darparwyr addysg, yn arbennig Sefydliadau Addysg Uwch ac yn cyflwyno uchelgais e-skills DU ar gyfer cydweithio yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r argymhellion ar gyfer gweithredu pellach hefyd yn dilyn yn agos yr awydd a'r gweithgareddau arfaethedig o fewn y sector Addysg Bellach a nodir yng Nghytundeb Sgiliau Sector e-skills DU ar gyfer Cymru.

### Cefndir

Mae'r tirlun sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig yn fwy cyffredinol yn newid yn gyflym, wedi'i hybu gan arloesedd technolegol, y newid yn yr amgylchedd busnes a chystadleuaeth fyd-eang. Mae llawer o swyddi proffesiynol traddodiadol lefel mynediad mewn TG yn cael eu llenwi o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig ac mae pwysau cystadleuol yn golygu fod yn rhaid i newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu TG a Thelathrebu ddod yn fwy cynhyrchiol yn gyflymach nag yn y gorffennol. Mae'r twf mewn cyflogaeth Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu yn y DU yn bennaf mewn rolau proffesiynol gwerth uchel sydd angen sgiliau soffistigedig mewn busnes, perthynas cleient a rheolaeth prosiect, ynghyd â chymwyseddau technegol dwfn.

Mae rolau galwedigaethol yn newid yn gyflym o fewn y gweithlu TG a Thelathrebu ac mae'n anodd i bobl ddeall dewisiadau gyrfa a llwybrau datblygu. Nid yw dewisiadau presennol pobl ifanc yn cefnogi twf y sector TG a Thelathrebu yn y dyfodol.

Erys Addysg Uwch yn gysylltiedig â TG yn ffynhonnell bwysig o dalent ar gyfer gofynion y llafurlu ac mae egni'r cyflenwad hwn yn hanfodol i Gymru.

Mae'r pwyntiau dilynol yn dynodi rhai o'r heriau fydd yn wynebu'r sector TG a Thelathrebu yng Nghymru yn y dyfodol - sector sydd nid yn unig yn hollbwysig i economi Cymru ynddo'i hun ond hefyd yn hwylusydd ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau yn yr economi. Mae cyfleoedd sylweddol lle gall cyflenwad addysgol, ac yn neilltuol Addysg Uwch, roi ymyriadau hollbwysig i fynd i'r afael â'r materion a ddynodwyd.

Dengys ymchwil e-skills DU (Technoleg yn Cyfrif Cymru: Gwybodaeth TG a Thelathrebu, e-skills DU - dyddiad cyhoeddi Gorffennaf 2008):-

Mai'r sector TG oedd y sector twf cyflymaf yn economi Cymru rhwng 1994 a 2004 gydag allbwn (GDP) yn tyfu ar 10.1% y flwyddyn ar gyfartaledd. Rhagwelir y bydd twf allbwn yn arafu rhwng 2004 a 2014, ond ar 5.6% y flwyddyn bydd yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r cyfartalog yng Nghymru (3.1%).
(Almanac Sgiliau Sector Cymru 2008, SSDA, 2008)

Yn ychwanegol disgwylir y bydd cyflogaeth TG yng Nghymru yn tyfu gan 2.5% y flwyddyn dros y degawd nesaf, bedair gwaith yn gyflymach na'r twf cyfartalog mewn cyflogaeth.

Bydd galw recriwtio ar gyfer swyddi proffesiynol TG a Thelathrebu yng Nghymru angen 3,200 o newydd-ddyfodiad y flwyddyn ar gyfartaledd hyd 2012, gyda'r mwyafrif ohonynt yn llenwi swyddi cynyddol gymhleth a gwerth ychwanegol uchel.

Mae gan 62% o swyddogion proffesiynol TG a Thelathrebu gymhwyster ar lefel isradd (Lefel 4) neu uwch. Mae cyflogwyr staff TG a Thelathrebu yn gryf o blaid recriwtio pobl brofiadol a lle recriwtir o fyd addysg, ffafrir graddedigion.

Mae anghydbwysedd difrifol rhwng dynion a menywod yn y gweithlu TG a Thelathrebu yng Nghymru, gyda dim ond 15% yn fenywod.

Bu gostyngiad enfawr yn y galw am raddau mewn cyfrifiadureg dros y pum mlynedd ddiwethaf: gostyngodd ymgeiswyr o'r DU gan 50%, i lawr i 13,500 o bobl erbyn 2006.

Yng Nghymru yn 2005, ymunodd 510 o raddedigion newydd â'r gweithlu TG o fewn chwe mis o raddio gyda 46% ohonynt â graddau Cyfrifiadureg neu Delathrebu a 54% o ddisgyblaethau gradd eraill.

### Gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan e-skills DU ac argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol

Mae tri amcan o fewn Cytundeb Sgiliau Sector ar gyfer Cymru e-skills DU i sicrhau y caiff galw cyflogwyr yn y sector TG a Thelathrebu ei ddiwallu, sef:

### Amcan 1 - Symbylu agweddau ac uchelgais y rhai mewn addysg i fynd am yrfa yn y sector TG a Thelathrebu

Gall Sefydliadau Addysg Uwch, mewn partneriaeth gyda chyflogwyr, chwarae rôl bwysig drwy weithio gydag ysgolion i annog pobl ifanc i astudio Technoleg Gwybodaeth.

Er enghraifft, mae Coleg y Drindod Caerfyrddin a Phrifysgol Cymru Casnewydd wedi cefnogi'r rhaglen Clybiau Cyfrifiadur i Enethod (CC4G) yng Ngwent a Sir Benfro ac mae adrannau gwyddor gyfrifiadurol Caerdydd, Abertawe, Morgannwg a NEWI oll wedi datgan fod ganddynt ddiddordeb mewn cefnogi'r clybiau.

Lluniwyd a chefnogwyd CC4G gan fforymau cyflogwyr e-sgiliau ledled y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i fynd i'r afael â phrinder menywod yn y gweithlu TG. Cafodd y rhaglen hon ei pheilotio yng Nghymru a rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid blwyddyn gyntaf i ysgolion oedd yn dymuno peilotio'r clybiau yn 2007/2008. Mae'r clybiau'n rhoi mynediad i enethod i feddalwedd gyfrifiadurol rad ac am ddim a'i gweithredu mewn cyd-destun sy'n gweddu eu diddordebau. Ethos yr ymestyn yng Nghymru oedd cynnwys rhanddeiliaid mewn cefnogi'r clybiau. I hyn o beth gwahoddir Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi clybiau yn eu hardaloedd.

### Argymhelliad 1

Bydd e-skills DU yn annog ymrwymiad parhaol Sefydliadau Addysg Uwch gyda CC4G dros y tair blynedd nesaf. Yn ychwanegol, medrai Sefydliadau Addysg Uwch ystyried cynnal gweithdy a gefnogir gan gyflogwyr ar gyfer disgyblion ysgol.

### Amcan 2 - Sicrhau fod rhaglenni israddedigion yn addas i'r pwrpas

Gall cydweithio rhwng cyflogwyr a Sefydliadau Addysg Uwch fod yn sail i gwricwla israddedigion fel eu bod yn diwallu anghenion busnes ac economi Cymru.

Er enghraifft datblygwyd y radd ITMB (Rheolaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer Busnes) gan e-skills DU, cyflogwyr a Sefydliadau Addysg Uwch er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cyflogwyr i recriwtio graddedigion gyda'r sgiliau cywir. Nod y radd yw sichrau fod y sgiliau a nodweddion y mae cyflogwyr eu hangen gan raddedigion pan fyddant yn cwblhau eu graddau. Mae'r radd newydd yn gosod safonau newydd wrth sicrhau canlyniadau gorau o'r math yn nhermau myfyrwyr cyflawniad uchel, gan apelio at fenywod yn ogystal â dynion, a gwella cyfraddau cwblhau gradd a chyflogadwyedd myfyrwyr.

Yng ngoleuni deinameg twf cyflogaeth yng Nghymru, bydd angen pwyslais cynyddol ar gyrsiau sy'n dod ag ysgolion busnes ac adrannau gwyddor gyfrifiadurol ynghyd.

### Argymhelliad 2

Mae fforwm cyflogwyr TG a Thelathrebu e-skills DU i Gymru yn gryf o blaid cyflwyno'r rhaglen gradd hon yng Nghymru. Gan weithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae e-skills DU yn ceisio cyllid i beilotio'r cwrs gradd ITMB o fewn dwy brifysgol yng Nghymru i recriwtio myfyrwyr i gychwyn yn 2009.

### Amcan 3 - Datblygu rhaglenni Addysg Uwch a fedrai gyfrannu at welliant parhaus sgiliau'r rhai o fewn y gweithlu TG a Thelathrebu.

Gyda chanran uchel o raddedigion yn y gweithlu TG a Thelathrebu, mae datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu hwn ar y lefelau sgiliau uwch. Caiff mwyafrif helaeth yr hyfforddiant sydd ei angen ei gyflwyno gan ddarparwyr preifat ar hyn o bryd. Mae cyfle ar gyfer cydweithio ar draws Sefydliadau Addysg Uwch a chyflogwyr i ddatblygu cyrsiau a fedrai nid yn unig gefnogi cynyddu sgiliau'r gweithlu presennol ond hefyd roi datrysiad cost-effeithiol i gyflogwyr, yn neilltuol fusnesau bach a chanolig.

### Argymhelliad 3

Medrai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cefnogi Sefydliadau Addysg Uwch a Chynghorau Sgiliau Sector gyda chyllid rhaglen i ddatblygu cyrsiau byr datblygu proffesiynol parhaus perthnasol.